Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar gyfer

# Grŵp Chwarae Gogledd Corneli
# Canolfan Blant Corneli
# Greenfield Terrace
# Gogledd Corneli
# Pen-y-bont ar Ogwr
# CF33 4LW

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## ac

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Gwybodaeth am Grŵp Chwarae Gogledd Corneli

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Grŵp Chwarae Cymunedol Gogledd Corneli |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Libby Leyshon a Suzanne Goddard |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Dd/G |
| Person â chyfrifoldeb | Libby Leyshon |
| Nifer y lleoedd | 28 |
| Ystod oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 3 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.15 a 11.45 a rhwng 12.30 a 15.00 (yn ystod tymor yr ysgol yn unig yn gyffredinol) |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Nac ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nid yw'r lleoliad hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / plant sy'n defnyddio'r lleoliad, neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Efallai mai'r rheswm dros hyn yw bod y lleoliad wedi'i leoli mewn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf ac, ar hyn o bryd, nid yw'r darparwr yn bwriadu cynnig na hyrwyddo gwasanaeth Cymraeg. Argymhellwn y dylai'r darparwr lleoliad ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 06/03/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/02/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 22/10/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Dd/G** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a rheoli** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Gwerthuso a gwella'r amgylchedd er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r holl ofod sydd ar gael

A2 Sicrhau bod targedau datblygu ac arfarniadau yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i'r plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu a fydd yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arferion gwych a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant: Da**

Mae bron pob plentyn yn datblygu llais cryf iawn ac yn gwneud llawer o ddewisiadau am eu chwarae. Mae'r rhan fwyaf yn symud o gwmpas y lleoliad yn hyderus, gan fynd i'r ardal awyr agored yn ddirwystr a cheisio gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Er enghraifft, cymryd ceir o'r tu mewn i'r lleoliad i'w defnyddio mewn gweithgaredd yn yr awyr agored a pharhau i chwarae â nhw'n ddychmygus. Mae llawer o'r plant yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn hyderus drwy ddulliau llafar a dieiriau. Er enghraifft, wrth ofyn am gymorth i wisgo eu cotiau er mwyn mynd allan i chwarae a thrwy arwain ymarferydd at yr ardal lyfrau drwy afael yn ei law er mwyn dewis llyfr i'w ddarllen.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hapus ac yn setlo'n dda yn y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd ac yn mynd ati ar unwaith i chwilio am y gweithgaredd o'u dewis. Mae'r nifer bach o'r plant sy'n cymryd yn hirach i setlo yn ymateb yn gyflym i sylw unigol gan ymarferwyr, er enghraifft, wrth wrando ar eu hoff stori. Maent yn meithrin dealltwriaeth o arferion y lleoliad yn dda iawn. Mae bron pob plentyn yn ffurfio ymlyniadau cadarnhaol iawn â'r ymarferwyr ac maent wedi meithrin cydberthnasau da iawn. Mae llawer o'r plant yn meithrin cydberthnasau â'u cyfoedion. Er enghraifft, drwy helpu plentyn arall i dynnu ei got. Mae bron pob plentyn yn fodlon iawn ac yn ymddiddori yn y gweithgareddau. Mae'r plant yn mynegi eu balchder yn eu cyflawniadau, er enghraifft, dangos yr hyn y maent wedi bod yn ei gasglu wrth fynd am dro yn y goedwig neu dasg gartref yn llawn brwdfrydedd.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir drwy ryngweithio'n gadarnhaol â'r ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf yn dysgu i reoli eu hymddygiad yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn aros eu tro, yn rhannu adnoddau ac yn helpu ei gilydd. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n dda i addurno pwmpen ac yn canolbwyntio'n dda wrth roi bocsys at ei gilydd i wneud pont at y sleid. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrtais ac yn dysgu i ddefnyddio 'please' a 'thank you' yn briodol. Mae llawer yn ymateb yn gadarnhaol i geisiadau gan yr ymarferwyr, megis helpu i dacluso.

Mae bron pob plentyn wir yn mwynhau ei chwarae a'i ddysgu. Er enghraifft, mae llawer o'r plant yn gwichian chwerthin wrth gwrso ar ôl ymarferydd o gwmpas yr ardal awyr agored. Maent yn ymwneud yn hapus ag amrywiaeth dda iawn o weithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt ac maent yn dyfalbarhau'n briodol yn ystod tasgau. Er enghraifft, adeiladu tŵr o flociau neu ddefnyddio gefeiliau i godi eitemau yn yr ardal ymchwilio. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn ystod amser cofrestru, gan ganu 'diwrnodau'r wythnos' yn uchel a dangos balchder wrth ateb cwestiynau'n gywir yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae bron pob plentyn yn dysgu sgiliau hunangymorth yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn gwisgo eu cotiau a'u welingtons, yn gweini eu bwyd eu hunain yn ystod amser byrbryd ac yn golchi a sychu eu dwylo'n annibynnol os bydd eu dwylo'n fudr ar ôl chwarae yn yr awyr agored.

**Dysgu (mae hyn ond yn berthnasol i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Barn**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant, am nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn cael addysg a ariennir rhywle arall, i lunio adroddiad arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a llesiant y plant yn effeithiol. Maent yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn dda iawn ac yn mynychu hyfforddiant i ddatblygu eu gwybodaeth. Er enghraifft, mae gan bob ymarferydd dystysgrif gyfredol mewn cymorth cyntaf pediatrig, diogelu a hylendid bwyd, ac mae'r rhan fwyaf wedi mynychu hyfforddiant ar fenter Atal, alergenau a chwarae cynhwysol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd da iawn i'r plant ddatblygu ffyrdd iach o fyw. Er enghraifft, maent yn cynnig cyfleoedd da i'r plant roi cynnig ar wahanol fathau o fwydydd iach, ac yn sicrhau y caiff iechyd ceg y plant ei hyrwyddo'n effeithiol. Maent yn rhoi llawer o sylw i lesiant y plant, er enghraifft defnyddio technegau ymwybyddiaeth ofalgar yn llwyddiannus i setlo ac ymlacio'r plant sy'n mynd yn orbryderus neu'n ofidus. Mae'r ymarferwyr yn dilyn arferion hylendid da yn briodol wrth baratoi ar gyfer byrbryd ac maent yn cefnogi'r plant yn dda er mwyn datblygu eu hylendid personol megis golchi dwylo a chwythu eu trwynau. Mae'r ymarferwyr yn hybu iechyd corfforol y plant yn effeithiol. Er enghraifft, drwy fynd am dro i'r goedwig gyfagos bob wythnos a chynnig cyfleoedd am ddim drwy gydol pob sesiwn i'r plant chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi polisi rheoli ymddygiad y lleoliad ar waith yn llwyddiannus, gan arwain at awyrgylch prysur ond digyffro. Mae llawer wedi cael hyfforddiant ar strategaethau rheoli ymddygiad ac maent yn hyrwyddo’r rhain yn effeithiol. Maent yn canmol ymddygiad cadarnhaol yn rheolaidd ac yn ymdrin ag ymddygiad digroeso, sy'n digwydd yn anaml iawn, mewn ffordd ofalus a chadarnhaol. Er enghraifft, esbonio, mewn ffordd dyner, beryglon gwthio tra eu bod ar y sleid a phwysigrwydd rhannu teganau. Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl da iawn, drwy drin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.

Mae'r ymarferwyr yn hybu datblygiad y plant ac yn diwallu eu hanghenion yn dda iawn. Mae'r ymarferwyr yn cwrdd â'r rhieni i drafod anghenion unigol eu plentyn cyn iddynt fynd i'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn gweithredu proses asesu gadarn yn llwyddiannus, gan olrhain a chefnogi datblygiad y plant yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn effeithiol, gan ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o ba mor dda y mae'r plant yn datblygu. Maent yn gwybod anghenion unigol y plant yn dda iawn ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio gweithgareddau er mwyn hybu datblygiad cyffredinol y plant. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod pob plentyn, yn enwedig y rhai hynny y gall fod angen help ychwanegol arnynt, yn cael ei gefnogi'n llawn i wireddu ei botensial. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda'r rhieni a gweithwyr proffesiynol allweddol er mwyn sicrhau y caiff gofal ei deilwra i anghenion unigol y plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu buddiol. Mae'r plant yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at y gwaith cynllunio. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn cofnodi syniadau'r plant ar 'thought shower' ac yn eu defnyddio i lywio dysgu yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r plant wedi ymgysylltu'n llwyr â'u dysgu. Mae'r ymarferwyr yn gwella profiadau dysgu'r plant yn dda drwy gynnal ymweliadau a gwahodd ymwelwyr.

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o'r cyfnod sylfaen ac yn gweithio mewn ffordd hyblyg ac ymatebol i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau ac arsylwadau rheolaidd ac ystyrlon. Maent yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i gynllunio gweithgareddau sy'n addas i gam datblygu pob plentyn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da iawn o'u man cychwyn yn y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn cwestiynu'r plant yn fedrus ac yn herio pob gallu yn briodol. Drwy gwestiynu'n ofalus, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i feddwl drostynt eu hunain. Er enghraifft, drwy ofyn ‘I wonder how we can get inside the pumpkin.’

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hybu datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol y plant. Maent yn dathlu diwylliannau'r teuluoedd sy'n mynychu'r lleoliad yn dda. Er enghraifft, gwahoddir y rhieni a'r gofalwyr i goginio bwydydd gwahanol, gwneud patrymau henna a rhannu gwisgoedd traddodiadol. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu ymdeimlad o barch at eraill.

Mae'r ddarpariaeth i gefnogi sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn effeithiol. Mae'r ardal lyfrau yn glyd â nifer priodol o lyfrau, pypedau a sachau straeon. Mae amrywiaeth o ddeunydd darllen ym mhob maes dysgu. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu eu sgiliau darllen cynnar yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn hybu sgiliau lleferydd y plant yn arbennig o dda. Er enghraifft, datblygu ardal dawelach ar gyfer chwarae rôl yn yr ystafell lai. Mae cyfleoedd buddiol i wneud marciau yn hybu ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus. Mae'r plant yn defnyddio TGCh yn bwrpasol yn eu chwarae. Er enghraifft, tynnu lluniau yn y goedwig a siarad am eu llun.

Mae'r lleoliad yn cefnogi datblygiad Cymraeg y plant yn effeithiol iawn. Mae'r ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg yn yr arferion a'r chwarae bob dydd. Maent yn gweithio'n agos gyda'r Cylch Meithrin sydd wedi'i leoli drws nesaf. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r lleoliad er mwyn darllen i'r plant yn Gymraeg. Mae'r plant yn cael cyfleoedd gwerth chweil i ddathlu eu treftadaeth Gymreig. Er enghraifft, coginio pice ar y maen ar Ddydd Gŵyl Dewi, a defnyddio lliain sychu llestri Cymreig.

Mae'r lleoliad yn hybu datblygiad sgiliau personol a chymdeithasol da yn dda iawn. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddatblygu caredigrwydd ac empathi. Maent yn dangos esiampl o ran bod yn garedig ac yn helpu'r plant i ddysgu sut i ofalu am eraill drwy eu cefnogi i ddeall eu hemosiynau eu hunain a dangos empathi ag eraill. O ganlyniad, mae'r plant yn dangos caredigrwydd tuag at ei gilydd. Er enghraifft, drwy gysuro eu ffrind yn annibynnol pan oedd yn drist.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd da i'r plant ddysgu am y byd o'u hamgylch, megis drwy dyfu planhigion, a mynd am dro. Maent yn defnyddio profiadau uniongyrchol gwerth chweil i hyrwyddo gofal. Er enghraifft, daeth un plentyn â chywion i mewn ac dangosodd sut i'w dal a gofalu amdanynt.

**Yr Amgylchedd: Da**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel iawn. Mae system ddiogelwch electronig yn sicrhau na all ymwelwyr fynd i mewn i'r safle heb gwmni ac maent yn sicrhau bod yr amgylchedd awyr agored yn ddiogel ar ôl i'r rhieni adael. Mae pob ardal yn lân ac mewn cyflwr da, ac mae prosesau rheoli heintiau priodol ar waith. Mae'r arweinwyr yn monitro diogelwch yr amgylchedd yn effeithiol drwy sicrhau y caiff asesiadau risg cadarn ac ystyrlon eu rhoi ar waith. Mae'r ymarferwyr yn wybodus am weithdrefnau diogelwch, yn cyfrannu at wiriadau dyddiol ac yn cynnal ymarferion gwagio'r safle mewn argyfwng yn rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn cysylltu â pherchenogion y safle'n briodol er mwyn sicrhau y caiff yr adeilad ei gynnal a'i gadw'n addas ac y caiff gwiriadau ar systemau trydanol, nwy a thân eu cynnal mewn modd amserol.

Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas. Mae'r ardaloedd yn gynnes ac yn groesawgar, a cheir arddangosfeydd lliwgar gan gynnwys gwaith y plant, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn a chyflawniad iddynt. Mae'r prif amgylchedd chwarae dan do yn cynnwys gweithgareddau diddorol yn cwmpasu pob maes dysgu. Fodd bynnag, mae'r gofod sydd ar gael i'r plant ehangu elfennau ar eu chwarae yn gyfyngedig, megis yr ardal ar gyfer chwarae â blociau. Mae ystafell ar wahân yn darparu ardal chwarae rôl sy'n cefnogi'r plant i ddatblygu eu lleferydd, eu hiaith a'u dychymyg yn effeithiol. Mae maint y cyfleusterau toiled yn addas i blant ac wedi'u lleoli'n gyfleus ar bwys yr ystafell chware fel y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleusterau newid cewynnau'n hyrwyddo preifatrwydd nac urddas y plant yn llawn.

Mae'r arweinwyr yn darparu teganau a chyfarpar o ansawdd da sy'n cynnig ysgogiad a her dda i'r plant. Maent yn sicrhau bod adnoddau a chyfarpar yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel ac y rhoddir amserlenni glanhau cadarn ar waith. Mae gan bob ardal adnoddau da ac mae'r ymarferwyr yn dechrau cynnwys 'eitemau go iawn' megis bocsys bwyd, sosbenni a cholandrau yn yr ardal chwarae rôl. Mae'r plant yn cael gafael ar adnoddau'n annibynnol gan eu bod yn gallu gweld yr hyn sy'n cael ei gynnig ac yn gwybod ble i ddod o hyd iddynt. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da iawn o'r ardal chwarae awyr agored sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gyfleoedd gwerthfawr i'r plant fod yn gorfforol egnïol. Er enghraifft, drwy ddefnyddio'r fframiau dringo, sleidiau, beiciau a chyfarpar cydbwyso. Mae'r gegin fwd awyr agored a'r ardal ymchwilio yn hyrwyddo dysgu, chwilfrydedd ac ymdeimlad o antur y plant yn effeithiol.

**Arwain a rheoli: Da**

Mae'r arweinwyr yn gosod safonau uchel i'w hunain ac i bob aelod o'r staff yn y lleoliad. Mae hyn yn creu ethos cadarnhaol iawn. Mae'r arweinwyr yn hybu gwaith tîm yn effeithiol iawn ac, o ganlyniad, mae pob ymarferydd yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi'n fawr. Mae pob ymarferydd yn hapus iawn yn ei waith. O ganlyniad, mae'n bwyllog, yn ofalgar ac yn ystyriol wrth chwarae gyda'r plant. Mae'r

arweinwyr yn cefnogi'r ymarferwyr yn barhaus i hyrwyddo llesiant da iawn drwy bob agwedd ar y lleoliad. Er enghraifft, yn ystod wythnos llesiant ymarferwyr, rhoddodd yr arweinwyr gardiau diolch i bob ymarferydd. Mae pob ymarferydd yn cefnogi ac yn dathlu gwaith ei gilydd. Er enghraifft, mae pob ymarferydd yn ysgrifennu arsylwadau cadarnhaol ar waith ei gilydd yn y lleoliad ac yn eu rhoi ar y bwrdd 'shout out'. O ganlyniad, mae pob ymarferydd yn teimlo ei fod yn cael ei rymuso, sy'n hybu lefelau uchel iawn o ymgysylltiad â phob plentyn.

Mae gan y lleoliad drefniadau da ar gyfer nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae pob ymarferydd yn ymrwymedig iawn i wella ansawdd y ddarpariaeth a chanlyniadau'r plant. Er enghraifft, cyflwyno darnau rhydd i'r lleoliad. O ganlyniad, mae'r plant yn archwilio adnoddau penagored ac yn datblygu sgiliau datrys problemau. Mae'r arweinwyr yn annog yr ymarferwyr yn rhagweithiol i gymryd cyfrifoldeb am welliannau ac maent yn dathlu cyfraniadau pob ymarferydd at waith y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn fyfyriol yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau i lywio'r broses hunanwerthuso fanwl. Caiff targedau datblygu ar gyfer y lleoliad eu gosod bob blwyddyn yn seiliedig ar y meysydd i'w gwella a nodwyd. Fodd bynnag, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar wella sgiliau'r plant.

Mae'r arweinwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac mae'r ymarferwyr yn manteisio ar y rhain i wella eu perfformiad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau'r ymarferwyr, megis gwella cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau lleferydd drwy chwarae rôl. Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, effeithiol ac amserol. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o ymarferwyr i gefnogi llesiant, chwarae a dysgu'r plant.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio yn effeithiol er mwyn helpu'r ymarferwyr i ddatblygu. Er enghraifft, maent yn gosod targedau sy'n helpu'r ymarferwyr i weithio tuag at gyflawni eu nodau personol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn defnyddio gweithdrefnau rheoli perfformiad yn ddigon da er mwyn helpu i cyflawni targedau datblygu'r lleoliad.

Mae'r arweinwyr wedi datblygu cysylltiadau da iawn â'r rhieni, sy'n gwerthfawrogi ac yn cefnogi'r lleoliad. Mae'r arweinwyr yn cynnwys y rhieni'n rhagweithiol yn y gwaith o ddatblygu dysgu'r plant drwy sesiynau ymgysylltu â theuluoedd rheolaidd. Er enghraifft, hyrwyddo llythrennedd wrth adrodd stori 'Hela'r arth' yn ystod picnic mawr ar y cae. Mae'r ymarferwyr yn rhoi llawer o wybodaeth i'r rhieni am gynnydd eu plentyn a'r hwyl y maent yn ei chael yn y lleoliad, megis drwy sesiynau 'paned a sgwrs' lle y gall y rhieni siarad â'r ymarferwyr a gweld beth mae eu plant wedi bod yn ei wneud. Mae'r ymarferwyr yn darparu tasgau ysgogol er mwyn hybu dysgu gartref. Er enghraifft, casglu eitemau hydrefol a arweiniodd at blentyn yn rhannu gwahanol goncyrs o'i gasgliad.

Mae'r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau effeithiol iawn sy'n gwella ansawdd y dysgu a'r canlyniadau i'r plant. Er enghraifft, defnyddir ymwelwyr yn dda iawn i wella profiadau'r plant ac i ymgysylltu â nhw. Mae'r cysylltiadau pontio â'r ysgolion bwydo yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae'r plant yn mynd i'w hysgol newydd yn hapus, yn hyderus ac yn barod i ddysgu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg Cyf (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/12/2019